

2023 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland),
Caergybi, Ynys Môn i fan i'r
dwyrain o Gyffordd 11 (Cyfnewidfa
Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd)
(Cyfyngiadau a Gwaharddiad
Traffig Dros Dro) 2023

Gwnaed 22 Mehefin 2023

Yn dod i rym 26 Mehefin 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffordd neu gerllaw iddi yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi, Ynys Môn i fan i'r dwyrain o Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Mehefin 2023.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2023 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A55 Trunk Road (Junction 1
(Kingsland Roundabout),
Holyhead, Anglesey to east of
Junction 11 (Llys y Gwynt
Interchange), Bangor, Gwynedd)
(Temporary Traffic Restrictions &
Prohibition) Order 2023

Made 22 June 2023

Coming into force 26 June 2023

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road and because of the likelihood of a danger to the public on or near the road during periods of high winds.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 1 (Kingsland Roundabout), Holyhead, Anglesey to east of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibition) Order 2023 and this Order comes into force on 26 June 2023.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) a “cyfnodau o wyntoedd cryfion” (“*periods of high winds*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 26 Mehefin 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith neu wyntoedd cryfion eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor a chefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau a gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 mya ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 mya ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor trunk road and the A55 London to Holyhead trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) and “periods of high winds” (“*cyfnodau o wyntoedd cryfion*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 26 June 2023 and ending when the temporary traffic signs for each period of works or high winds are removed.

Restrictions and prohibition

3. No person may, during the works period or during periods of high winds, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 mph on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period or during periods of high winds, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 mph on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 mya ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

7.—(1) Nid yw'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Mehefin 2023

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

5. No person may, during the works period or during periods of high winds, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 mph on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order.

6. No person may, during the works period or during periods of high winds, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order.

Application

7.—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Suspension

8. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3, 4 and 5 apply.

Duration of this Order

9. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

22 June 2023

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darnau o brif gerbyttffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin a holl ffyrdd ymuno ac ymadael y gefnffordd sy'n ymestyn o Gyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi, Ynys Môn hyd at bwynt 800 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd.

SCHEDULE

The lengths of the main eastbound and westbound carriageways and all slip roads of the trunk road that extend from Junction 1 (Kingsland Roundabout), Holyhead, Anglesey to a point 800 metres east of the centre-point of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd.